OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 1088 (Cy.96)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Cynhyrchion Sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *27 Ebrill 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *28 Ebrill 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *28 Mai 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion gwneud Rheoliadau o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, ac yn gwneud y Rheoliadau hyn o dan y pwerau a roddwyd gan yr adran honno.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 28 Mai 2009.

### Diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007

**2.** Mae Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007(**3**) wedi eu diwygio drwy roi'r paragraff a ganlyn yn lle paragraffau (7) ac (8) o reoliad 4—

> "(7) Nid yw Rhan 3 (ac eithrio rheoliad 25) na Rhannau 4 i 9 yn gymwys o ran cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a bennir yn Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 206/2009 ar gyflwyno llwythi personol o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'r Gymuned(**4**).".

(**1**) O.S. 2005/2766, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/3329. Yn rhinwedd adran 162 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2007/376 (Cy.36) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2009/392 (Cy.41).
(**4**) OJ Rhif L 77, 24.3.2009, t. 1.

**Dirymu**

**3.** Mae Rheoliadau Cynhyrchion Sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006(**5**) wedi eu dirymu.

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

27 Ebrill 2009

(**5**) O.S. 2006/1349 (Cy.135).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Cynhyrchion Sy'n Dod o Anifeiliaid (Cymru) 2007 er mwyn cymryd i ystyriaeth y newidiadau mewn mewnforion personol a ganiateir o drydydd gwledydd a achoswyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 206/2009 ar gyflwyno llwythi personol o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'r Gymuned.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu Rheoliadau Cynhyrchion Sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006.

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn wedi'i lunio ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir y bydd yr offeryn yn effeithio o gwbl ar fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol.